Pryd cewch chi gwyno wrthyn ni?

Cwyn anffurfiol wrth staff y gwasanaeth prawf

Anfodlon

Cwyn ffurfiol wrth y Prif Swyddog Prawf

Anfodlon

Apêl i Fwrdd Prawf yr Ardal

Anfodlon

Cwynwch wrthyn ni

Yn gyntaf, dylech ddefnyddio trefn gwyno'r Gwasanaeth Prawf i geisio delio â'r broblem.

- Siaradwch â'r staff yn Swyddfa'r Gwasanaeth Prawf i weld a allan nhw ddatrys y peth yn anffurfiol.
- Os na allan nhw helpu, gwnewch gwyn ffurfiol ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Prawf.
- Os nad yw hynny'n gweithio, apeliwch yn ysgrifenedig i Fwrdd Prawf eich Ardal.

Os nad ydych chi'n fodlon ar yr ateb gewch chi gan Fwrdd yr Ardal, fe allwch gwyno wrthyn ni ond rhaid i chi wneud hyn cyn pen mis i chi dderbyn ateb gan Fwrdd yr Ardal. Os nad yw Bwrdd yr Ardal wedi rhoi ateb i chi cyn pen chwe wythnos, fe allwch ddal i gwyno wrthyn ni.

Sut mae cwyno wrthyn ni?

Llenwch y ffurflen sydd ynghlwm wrth y daflen hon neu, os yw'n well gennych, ysgrifennwch aton ni gyda manylion eich cwyn. Dim ond manylion byr sydd eu hangen yn y lle cyntaf, ond mae'n help os byddwch chi'n anfon eich ffurflen apelio. Fe fyddwn yn cysylltu â chi os bydd angen rhagor o wybodaeth.

Os ydych chi'n cael anhawster darllen neu ysgrifennu, gofynnwch i ffrind neu berthynas am help.

CARCHARDAI A PHROFIANNAETH
YR OMBWDSMON
dros Gymru a Lloegr
ymchwiliad annibynnol i gwynion

Nawr, mae gennych chi'r hawl i gwyno gyda hyder

Pwy gaiff gwyno?

Os oes adroddiad cyn-dedfrydu wedi'i ysgrifennu amdanoch neu os ydych chi dan oruchwyliaeth neu drwydded, fe allwch gwyno wrthyn ni am y ffordd y cawsoch chi'ch trin.

Am beth y gallwch chi gwyno?

Fe allwch gwyno am bron unrhyw beth sydd a wnelo â'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Prawf wedi'ch trin, ac eithrio penderfyniadau am barôl ac ychydig o sefyllfaoedd prin eraill. (Fe ddywedwn ni wrthych chi os yw'r rheiny'n berthnasol.)

Ble y gallwch chi gael rhagor o wybodaeth?

- Ffôn:

020 7035 2876

- Ysgrifennwch i:

Prisons and Probation Ombudsman
Ashley House
2 Monck Street
London
SW1P 2BQ

- Gallwch ymweld â'n gwefan yn:

www.ppo.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael hefyd ar dâp sain ac yn yr ieithoedd hyn: Saesneg, Almaeneg, Arabeg, Bengali, Eidaleg, Ffrangeg, Fietnameg, Iaith Groeg, Gwjarati, Hindi, Iseldireg, Portiwgaleg, Punjabi, Pwyleg, Rwsieg, Sbaeneg, Tamil, Tsieinëeg, Twrceg, Wrdw.

Gofynnwch am gopïau yn swyddfa'r adain, neu ffoniwch 020 7035 2876.

Mae Nod Crisial yr Ymgyrch Saesneg Clir yn berthnasol i'r geiriau'n unig.

Cyhoeddwyd gan Gyfadran Gyfathrebu'r Swyddfa Gartref, Awst 2001

PROB 08/01

Taflen Profiannaeth

CARCHARDAI A PHROFIANNAETH
YR OMBWDSMON
dros Gymru a Lloegr
ymchwiliad annibynnol i gwynion

NAWR, MAE GENNYCH CHI'R HAWL I GWYNO GYDA HYDER

Cwyno i Ombwdsman

y Carchardai a Phrofiannaeth

Gwrthrychol . Agored . Effeithiol

Ffurflen gais

CARCHARDAI A PHROFIANNAETH
YR OMBWDSMON
dros Gymru a Lloegr
ymchwiliad annibynnol i gwynion

Llenwch y ffurflen isod a'i hanfon aton ni, os gwelwch yn dda.

Eich manylion personol

Cyfenw: | Teitl (Mr, Mrs, Ms, Miss):

Enw cyntaf:

Cyfeiriad (gan gynnwys côd post):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Dyddiad geni: / /

Rhowch fanylion unrhyw anghenion arbennig y dylen ni eu cadw mewn cof wrth ddelio â'ch cwyn neu wrth gysylltu â chi.

Eich manylion prawf

Cyfeiriad eich swyddfa brawf:

Os ydych dan oruchwyliaeth:

Dan ba fath o oruchwyliaeth ydych chi?

Pryd y dechreuodd eich goruchwyliaeth? / / Pryd bydd yn dod i ben: / /

Enw eich swyddog prawf:

Eich cwyn (Defnyddiwch ddalen arall os oes angen.)

Am beth rydych chi'n cwyno?

Pa bryd digwyddodd hyn? / /

Pa gamau y dylid eu cymryd i wneud pethau'n iawn?

Ydy'r Gwasanaeth Prawf wedi ystyried eich cwyn? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Ydych chi wedi apelio i'r Gwasanaeth Prawf? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydych, anfonwch gopi o'u hateb aton ni, os gwelwch yn dda. Os nad ydych chi wedi cael ateb eto, go brin y bydd yr Ombwdsman yn gallu ymchwilio i'ch cwyn.

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gwyno?

Fe fyddwn ni'n darllen eich cwyn ac yn ysgrifennu atoch cyn pen 10 diwrnod, gan ddweud wrthych ydyn ni'n derbyn eich cwyn ai peidio. Os nad ydyn ni'n derbyn eich cwyn, fe fyddwn ni'n esbonio pam.

Sut fyddwn ni'n penderfynu ydyn ni'n cytuno â'ch cwyn ai peidio?

Fe fyddwn ni'n delio gyda phob cwyn drwy edrych o'r newydd ar y dystiolaeth ac yna'n penderfynu beth yw'r peth iawn i'w wneud. Beth bynnag y bydd canlyniad eich cwyn, fe fyddwn bob amser yn esbonio beth yw'r rhesymau dros ein penderfyniad.

Beth sy'n digwydd pan fyddwn ni'n archwilio'ch cwyn?

Byddwn yn casglu gwybodaeth am eich cwyn gennych chi, y Gwasanaeth Prawf ac unrhyw un arall a allai helpu, yn ein barn ni. Yna, byddwn yn ceisio setlo'ch cwyn yn un o'r ffyrdd isod.

- Penderfyniad lleol – Mae hyn yn golygu ceisio dod o hyd i ateb y gallwch chi a Bwrdd Prawf eich Ardal gytuno arno. Yn aml iawn, dyma'r ffordd hawsaf o ddelio â'r gwyn.
- Adroddiad neu lythyr byr – Fe fyddwn ni'n defnyddio hwn pan na all y ddwy ochr gytuno. Fe all hefyd fod yn eitha cyflym.
- Adroddiad llawn – Fe fyddwn ni'n defnyddio hwn hefyd pan na all y ddwy ochr gytuno. Mae'n fwy manwl na'r adroddiad byr ac mae'n cymryd mwy o amser i'w ysgrifennu.

Ein nod yw delio â'ch cwyn yn un o'r tair ffordd hyn cyn pen 12 wythnos i ddechrau'r archwiliad. Os ydyn ni'n cytuno gyda'ch cwyn, bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhelliad i Fwrdd yr Ardal ynghylch y camau y dylen nhw eu cymryd i unioni'r cam.

Prisons and Probation Ombudsman
Ashley House, 2 Monck Street, London SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2876
E-bost: mail@ppo.gsi.gov.uk www.ppo.gov.uk